Pe



# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Peiriannydd Archwilio Archwiliadau Arbenigol

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



Mark McNamara
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.


Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd aChanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Sir y Fflint**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





**Teitl y swydd:** Peiriannydd Archwiliad Archwiliadau Arbenigol

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi. Rydym yn chwilio am Beiriannydd Archwiliad Archwiliadau Arbenigol i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** PS1(SCP 29-31) £37,336 - £39,186

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** Drenewydd, Powys

**Dyddiad cau:** 26/11/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

- Rheoli rhaglen Archwiliadau Diogelwch a Chyflwr Asedau yn unol â gofynion Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer y mathau o asedau a ganlyn:
- System Atal Cerbydau (VRS)
- Systemau draenio
- Asedau geodechnegol
- Asedau eraill fel y'u hadnabuwyd

- Rheoli gweithgareddau cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â'r mathau o asedau uchod sydd wedi'u rhaglennu, sy'n arferol ac sy'n rhagweithiol

- Bodloni rhwymedigaethau ACGChC dan Adran 41, "Duty to maintain highways maintainable at public expense" ac Adran 58 "Special defence in action against a highway authority for damages for non-repair of Highway", Deddf Priffyrdd 1980.

- Cynorthwyo'r Uwch Beiriannydd Archwilio i weithredu gofynion Rheoliad 13 Endidau Archwilio o ran asedau priffyrdd dan Reoliadau Diogelwch Twneli Ffyrdd 2007 (fel y'u diwygiwyd yn 2009).

- Ymgymryd â'r swyddogaethau ar y ffordd ac yn y swyddfa gefn sy'n gysylltiedig ag archwilio arbenigol asedau priffyrdd a swyddogaethau cynnal a chadw.
- Rheoli gofynion arolygu ac archwilio ffyrdd y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd (NRSWA) a gweithredu'r Codau Ymarfer perthnasol ar y rhwydwaith cefnffyrdd ar ran Tîm Meddiannaeth y Rhwydwaith ACGCC.

- Cynorthwyo i sicrhau cydymffurfiaeth gyda darpariaethau gorfodaeth a thrwyddedu Deddf Priffyrdd 1980.



# Cyfrifoldebau

**Swyddogaeth Archwilio**

- Arwain ar reoli archwiliadau arbenigol yn cynnwys Archwiliadau VRS Manwl, Draenio a Geodechnegol ar y rhwydwaith cefnffyrdd yn unol â Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru a gofynion System Wybodaeth Ffyrdd Integredig Llywodraeth Cymru (IRIS). Lle bo angen, cynnal neu gynorthwyo ag archwiliadau diogelwch ar gyfer pob math o ased.

- Ennill arbenigedd mewn defnyddio'r system cyfeirio rhwydwaith drwy ddeall system a dogfennau link-section-node y System Rheoli Cynnal Ffyrdd (RMMS), yn ogystal a adnabod, asesu risg a blaenoriaethu diffygion Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru.

- Cynnal archwiliadau perthnasol (wedi'u rhaglennu neu'n rhagweithiol). Hysbysu'r Rheolwyr Llwybr Cynorthwyol, y Swyddogion Traffig, ACGCC neu'r Gwasanaethau Brys fel y gellir 'cywiro a diogelu' diffygion Categori 1 cyn gynted ag y bo'n briodol gwneud hynny.

- Archwilio, adnabod a chodi diffygion Adran 81 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd sy'n gysylltiedig ag ailosod gwasanaethau a chodi Archebion Gwaith am ddiffygion Categori 1 cysylltiedig er mwyn i Reolwyr Llwybrau Cynorthwyol / Awdurdodau Partner eu rheoli. Rheoli archwiliadau gwaith stryd Adran 75 a gweithgareddau gwaith archwilio Adran 72 ar ran Tîm Meddianaeth ACGCC (awdurdod strydoedd) fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd Cysylltu â'r Rheolwyr Llwybrau Cynorthwyol ac/neu'r Awdurdodau Partner ynglŷn â chynnal archwiliadau ac unioni diffygion.

- Cynorthwyo'r Rheolwr Hawliadau Trydydd Parti a Rheolaeth Datblygu o ran ymdrin â hawliadau.

**Swyddogaeth Cynnal a Chadw**

- Rheoli comisiynu a gweithrediad swyddogaethau cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â'r mathau o asedau uchod sydd wedi'u rhaglennu, sy'n arferol ac sy'n rhagweithiol.
- Gweithredu gofynion ffyrdd Dyletswydd Adran 81 i Gynnal a Chadw Cyfarpar o dan NRSWA ac Adrannau 41 & 150 y Ddeddf Priffyrdd.
- Creu gwybodaeth Archebion Gwaith am ddiffygion gydag amcan fesur fel sy'n ofynnol gan y meddalwedd cofnodi data archwilio yn system IRIS.
- Rheoli atgyweiriadau diffygion categori a swyddogaethau cynnal a chadw arferol o fewn cyllidebau sydd ar gael ac o fewn cyfyngiadau arwynebedd ffordd.

**Swyddogaeth Rhestr Eiddo**

- Cynnal arolygon i greu gwybodaeth rhestr eiddo asedau gan fanylu ar asedau priffyrdd newydd a phresennol yn unol â Llawlyfr Cynnal Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru. Dylid cofnodi data'r arolwg ar IRIS. Cyfrannu at gynnal a chadw'r system gyfeirio rhwydwaith, gan gynnwys addasu, diweddaru a chreu tudalennau'r dogfennau cyswllt-adran-nod (link-section-node). Adnabod ac adrodd am ddiffygion y ddogfennaeth neu'r system marcio ar y ffordd i'r Swyddog System Asedau.

**Gweinyddiaeth Dechnegol RMMS (IRIS)**

- Cofnodi, dilysu, golygu ac uwchlwytho data archwiliadau ac arolygon i mewn i'r system IRIS, gan gynnwys data archwiliadau arbenigol. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth atodol ar gyfer cynhyrchu Archebion Gwaith Categori 1 (e.e. ffotograffau a mesurau rhagarweiniol).




# Manylion Person

## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

### Meini prawf penodol i’r swydd

Yr ydym yn chwylio am berson sydd yn gallu gweithio dan bwysau, hunan-gymhelliant a'r gallu i ysgogi staff ar bob lefel yn ogystal â sgiliau trefnu da

### Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

HNC/Gradd mewn pwnc peirianneg a phrofiad diwydiant perthnasol neu brofiad perthnasol sylweddol yn y sector priffyrdd.

### Profiad perthnasol

Profiad o arolygu seilwaith a / neu gynnal a chadw

### Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Gallu gweithio ar ei liwt ei hun ac fel rhan o dîm
Sgiliau cyfathrebu datblygedig iawn, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
Sgiliau trefnu da
Creadigrwydd a sgiliau datrys problemau
Gallu addasu’n gyflym i sefyllfaoedd sy’n newid
Gwybodaeth am Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch berthnasol
Trwydded Yrru Gyfredol
Sgiliau TG, defnyddio rhaglenni Microsoft Office gan gynnwys Word ac Excel

### Gofynion ieithyddol

Mae’r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a



- 26 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Oriau gweithio hyblyg.




- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.